5.163

GYDA'R WAWR, WYL DDEWI 1919.

Fy nghenedl ! " deffro : mae'n ddydd !"
Clyw floedd angel dy oruchafiaeth !
Llam o'th hëïyrn : yr wyt yn rhydd !
Ennyn dy dant ! cân yn dy afiaith !
A chôd dy ben,
Fy Nghymru wen :
Gwêl heulwen, fryn a phant ;
Gwisg gledd Glyn Dwr yng ngwasg dy glun
Er mwyn dy fywyd glân dy hun ;
A than dy fron,
Fel llanw y dón,
Boed calon Dewi Sant.

Fy nghenedl ! hired dy nos !
Tro gefn arni, ond paid â'i hanghofio :
Gall cofio nos, mewn heulwen dlos
A môr o ddydd, dy gadw yn effro.
Bydd fyw—bydd fyw :
Mae'th law ar lyw
Y deyrnas gollaist oesoedd gant ;
Gorchfyga hi eto ! (ddelfryd cain !)
Tyn gledd Glyn Dwr o hedd ei wain,
A threcha'r byd—
Y byd i gyd—
Yn ysbryd Dewi Sant. Ifano.

X205 244865